Adroddiad ar

# Ysgol Croesyceiliog

Woodland Road
Croesyceiliog
Cwmbrân
Torfaen
NP44 2YB

Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Croesyceiliog

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Croesyceiliog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1185 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1185 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 18.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 12.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.4% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.3% |
| Partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2022 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 22/01/2018 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 29/09/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Croesyceiliog yn gymuned groesawgar a chefnogol y mae disgyblion a staff yn falch o berthyn iddi. Mae perthnasoedd cadarnhaol yn gryfder nodedig yn yr ysgol ac mae arweinwyr yn blaenoriaethu lles staff a disgyblion yn llwyddiannus. Mae ystod y cymorth sydd wedi'i gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gryfder penodol.

Mewn llawer o achosion, mae'r addysgu sydd wedi'i gynllunio'n ofalus yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cadarn, o leiaf. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn ymgysylltu â'u dysgu ac yn dal ati i ganolbwyntio. Mewn ychydig o wersi hynod effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn y gwersi prin lle nad yw athrawon yn darparu digon o her neu'n cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent.

Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cadarn o ran sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig darllen. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol mewn cyfnod datblygu cynharach. At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau iaith mewn gwersi Cymraeg yn addas, er nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer y rhain ar draws yr ysgol. Yn ychwanegol, megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i ddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir ar y cyd yn llwyddiannus ar gyfer ei chwricwlwm, a gynlluniwyd trwy ymgynghori â disgyblion, rhieni a phartneriaid. Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi gan amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, tripiau, a chyfleoedd creadigol sy'n cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Mae arweinwyr wedi gwneud gwelliannau buddiol mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llythrennedd a chyfraddau presenoldeb. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn cymharu'n ffafriol â lefelau mewn ysgolion tebyg. Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant cryf o waith tîm a chydweithio. Mae prosesau hunanwerthuso cryfach yn helpu arweinwyr i ddeall cryfderau'r ysgol a'i meysydd pwysicaf i'w datblygu, er nad yw eu gwerthuso bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn rhagweithiol, yn fyfyriol ac yn wybodus am waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn darparu cymorth a her werthfawr i arweinwyr.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Miniogi prosesau hunanwerthuso fel bod arweinwyr yn canolbwyntio'n fanwl gywir ar effaith yr addysgu ar ddysgu a chynnydd disgyblion

A2. Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd dilys ac addas o heriol i gymhwyso'u medrau rhifedd a digidol mewn pynciau perthnasol

A3. Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau Cymraeg ar draws yr ysgol, ac ymestyn eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â gwella ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu trwy ymagwedd gydweithredol at feithrin perthnasoedd cryf a chadarnhaol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae staff yn Ysgol Croesyceiliog yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i greu diwylliant o barch. Mae hon yn nodwedd ganolog o'u 'Maniffesto Dysgu'. Mae ymdeimlad cryf o barch ar y ddwy ochr rhwng disgyblion a staff yn cyfrannu'n dda at berthnasoedd gwaith cadarnhaol ac yn helpu llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn, o leiaf, yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm sydd wedi cael ei ffurfio trwy ymgynghori â disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, ac ysgolion cynradd partner. Mae dull addysgu 'Croesy Five' yn ganolog i hyn, sy'n pwysleisio adborth, cymhwyso medrau, her i bawb, esbonio, a pharodrwydd i ddysgu. Mae hyn yn cefnogi datblygiad cyfannol disgyblion yn dda. Mae arweinwyr wedi treialu, gwerthuso ac addasu'r dull hwn dros gyfnod fel bod y cwricwlwm yn helpu disgyblion i feithrin eu chwilfrydedd, eu gwaith tîm a'u gwydnwch.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref, yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol i hyrwyddo agweddau at ddysgu. Mae ychydig ohonynt yn dangos angerdd a brwdfrydedd nodedig yn eu haddysgu, sy'n ysbrydoli egni tebyg mewn disgyblion. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ddysgwyr hynod frwdfrydig sy'n awyddus i gyfrannu at drafodaethau dosbarth a rhannu eu syniadau. Mewn ychydig o achosion lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, mae athrawon yn esbonio testunau heriol yn glir ac yn defnyddio holi effeithiol i brocio a dyfnhau meddwl disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn gweithredu 'Croesy Five' yn gyson i sefydlu arferion clir sy'n sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yn brydlon, yn mynd ati'n gyflym i gwblhau tasgau, ac yn barod i ddysgu. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac yn modelu terminoleg bwnc yn dda i gefnogi defnydd disgyblion o iaith dechnegol. Mae'r athrawon hyn yn cynnal disgwyliadau uchel o ymddygiad, ymgysylltiad a chyfranogiad, sy'n arwain at ystafelloedd dosbarth trefnus lle mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn cynnal ffocws ar eu dysgu.

Mae'r addysgu mewn llawer o achosion yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn, o leiaf. Yn yr achosion hyn, mae athrawon:

- yn cynllunio ar gyfer dysgu, ac yn darparu adnoddau ar ei gyfer yn dda, gan strwythuro tasgau i adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion yn ddilyniannol

- yn defnyddio ystod o drafodaethau grŵp strwythuredig i arwain disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth bynciol ynghyd â'u medrau siarad a gwrando
- yn defnyddio holi yn addas i wirio dysgu blaenorol

O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb â brwdfrydedd, yn ymgysylltu'n bwrpasol mewn gwersi ac yn cyfrannu o'u gwirfodd at drafodaethau pâr a dosbarth. Mae llawer ohonynt yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith.

Mewn ychydig o wersi, mae gormod o siarad gan athrawon, a chynllunio nad yw'n diwallu anghenion pob un o'r disgyblion yn llawn, yn cyfyngu ar eu hymgysylltiad ac nid yw'n eu herio'n ddigon da. Yn y gwersi hyn, nid yw'r holi'n procio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon dwfn i ymestyn eu meddwl, ac mae disgyblion yn aml yn oddefgar yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cylchu'r ystafell ddosbarth yn bwrpasol i wirio ymgysylltiad disgyblion ac yn rhoi adborth ar lafar sy'n eu helpu i fireinio a gwella'u gwaith. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae athrawon yn mynd i'r afael â chamdybiaethau'n gyflym ac yn arwain disgyblion i wella ansawdd eu hymatebion. Mae llawer ohonynt, lle mae'n berthnasol, yn rhoi adborth ysgrifenedig buddiol i ddisgyblion sy'n dangos iddynt sut gallant wella'u gwaith. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn ymateb yn dda i hyn ac yn datblygu eu gwaith yn llwyddiannus.

### Cwricwlwm

Mae'r ysgol wedi parhau i fyfyrio ar ei chwricwlwm, a'i fireinio, i sicrhau bod y cynnig yn eang a chytbwys ac yn diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn elwa ar ystod o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, yn ogystal â darpariaeth amgen ar gyfer y rhai sy'n cael anawsterau wrth geisio cael mynediad at addysg brif ffrwd.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol, yn enwedig trwy broses opsiynau Blwyddyn 9, ac wrth benderfynu ar eu camau nesaf yn ystod Blwyddyn 11. Yn ychwanegol, ar ôl ymgynghori â rhieni a disgyblion, mae'r ysgol wedi addasu ei system olrhain, monitro ac adrodd am gynnydd disgyblion yn fuddiol ar draws y cwricwlwm yn ddiweddar.

Mae disgyblion yn elwa ar raglen dra ystyriol o addysg bersonol, ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol sy'n gwneud defnydd ystyrlon o safbwyntiau disgyblion, ac yn cael ei chyfoethogi gan ystod eang o arbenigedd allanol. Mae'r rhaglen hon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau dynol ac amrywiaeth.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg ei chynllunio'n ystyriol. Mae disgyblion yn dysgu am draddodiadau ac arferion crefyddol, a'u dylanwad ar unigolion a

chymdeithas, ynghyd ag archwilio cyfyng-gyngor moesol, rhesymu moesegol, a chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Caiff disgyblion eu cefnogi'n dda trwy eu gwersi iechyd a lles a gwasanaethau i ddatblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol a dysgu am brofiadau cymunedau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Yn yr un modd, rhoddir lle priodol i hunaniaeth ddiwylliannol leol ac ystyriaeth i le disgyblion yn y byd yng nghwricwlwm yr ysgol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn dechrau cynllunio a chynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion brofi a dysgu am hanes a diwylliant Cymru trwy weithgareddau fel Diwrnod Shwmae a Dydd Miwsig Cymru. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen fywiog a chynhwysol o gyfleoedd allgyrsiol sy'n cael ei hyrwyddo ymhlith pob un o'r disgyblion. Mae cynyrchiadau'r ysgol, clybiau celf ac amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon yn cefnogi datblygiad creadigol, corfforol a diwylliannol disgyblion. Mae amrywiaeth eang o ymweliadau addysgol a gweithgareddau cyfoethogi yn ychwanegu at y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â'r theatr, teithiau chwaraeon, a thrip i Rufain.

## Medrau

Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant darllen cryf lle caiff disgyblion eu hannog i ddarllen er mwynhad. Mae mwyafrif y disgyblion yn crynhoi gwybodaeth yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn gwerthuso'r gwahanol ffactorau a arweiniodd at gael gwared ar y fasnach gaethweision. Maent yn defnyddio'u medrau dod i gasgliad i ddadansoddi a dehongli ystyr mewn testunau sy'n addas o heriol. Mae lleiafrif ohonynt yn dangos lefelau uchel o soffistigeiddrwydd wrth iddynt ddadansoddi testunau fel Hamlet a Blood Brothers ym Mlwyddyn 8. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cyfosod a chrynhoi gwybodaeth yn llwyddiannus am agweddau Cristnogol at y bywyd tragwyddol mewn addysg grefyddol a darganfod newid hinsawdd mewn daearyddiaeth. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael trafferth dadgodio geiriau anghyfarwydd a chreu casgliadau mwy cymhleth mewn deunyddiau darllen heriol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn briodol i'w cyfoedion a'u hathrawon. Maent yn siarad yn glir ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus, gan ddefnyddio ystod eang o eirfa gyffredinol ac yn benodol i bwnc. Wrth weithio mewn grwpiau, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau dilys ac yn gofyn cwestiynau meddylgar i'w gilydd. Mewn ychydig o drafodaethau grŵp a dosbarth, mae disgyblion yn cynnig ymatebion byr ac annatblygedig ar lafar. Yn aml, nid yw athrawon yn eu holi na'u herio i'w gwella yn ddigon da.

Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthchweil i ysgrifennu'n estynedig ar gyfer ystod o wahanol gynulleidfaoedd a dibenion. Mae mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu'n briodol, yn defnyddio geirfa eang ac yn strwythuro'u gwaith yn briodol. Mae ychydig ohonynt yn ysgrifennu â soffistigeiddrwydd ac yn defnyddio iaith ac atalnodi i greu effeithiau bwriadol ar gyfer y darllenydd, er enghraifft pan maent yn gwerthuso gwaith gwahanol artistiaid mewn celf. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu, gan gynnwys wrth iddynt sillafu geiriau cyffredin a geirfa sy'n benodol i bwnc. Nid yw'r disgyblion hyn bob amser yn prawfddarllen eu gwaith yn ddigon da.

Mewn gwersi mathemateg, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau rhif sylfaenol cadarn ac yn galw ffeithiau rhif i gof yn addas. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemateg a rhifedd yn ddigon da. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i alw cysyniadau pwysig i gof, a'u cymhwyso, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. O roi'r cyfle iddynt, mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn ystyriol i ateb cwestiynau yn eu cyd-destun. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymhwyso'u dealltwriaeth o fandiau treth yn dda i gyfrifo a chymharu treth incwm gwahanol broffesiynau yn gywir. Yn gyffredinol, mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm, nid yw disgyblion yn dangos eu gwaith yn ddigon da. Er bod llawer o ddisgyblion yn plotio graffiau syml yn gywir mewn llawer o bynciau, nid ydynt bob amser yn dadansoddi'r graffiau hyn nac yn eu defnyddio i ddatrys problemau neu ateb cwestiynau. Hefyd, yn y pynciau hyn, caiff gweithgareddau rhifedd eu darparu'n aml ar lefel rhy isel neu nid ydynt yn ychwanegu at ddealltwriaeth disgyblion o'r pwnc.

Mewn gwersi technoleg gwybodaeth (TG), mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o raglenni meddalwedd yn addas i ddylunio gwefan neu gyflwyniad neu i greu animeiddiadau effeithiol. O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion yn tynnu ac yn golygu ffotograffau ac yn eu trin i greu gwaith o ansawdd uchel mewn celf a ffotograffiaeth. Mewn ychydig o achosion ar draws y cwricwlwm, nid yw gwaith digidol yn ddigon heriol ac mae disgwyliadau athrawon ar gyfer beth gall disgyblion ei wneud yn rhy isel. O ganlyniad, mae disgyblion dim ond yn ymarfer yr hyn y gallant ei wneud eisoes yn hytrach na datblygu medrau uwch.

Mae arweinwyr yn dadansoddi ystod o ddata yn fuddiol, yn cynnwys profion cenedlaethol i nodi meysydd gwendid ym medrau disgyblion a darparu cymorth buddiol trwy ymyriadau targedig. Maent hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'u cynllunio ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o eirfa sy'n benodol i bwnc. Ceir ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer eu medrau rhifedd a digidol wedi'i datblygu cystal. Hefyd, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y gwaith hwn yn

ddigon agos, ac o ganlyniad, mae’r cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol yn rhy amrywiol.

### Y Gymraeg

Mae mwyafrif y disgyblion yn ynganu geirfa Gymraeg yn briodol ac yn cyfieithu geiriau sylfaenol o’r Gymraeg i’r Saesneg yn gywir. Pan roddir anogaeth a chyfleoedd iddynt, maent yn ymateb i gwestiynau syml ac yn darllen ar goedd yn briodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion yr hyder i gyfathrebu’n ddigymell yn Gymraeg, ac maent yn aml yn dibynnu’n ormodol ar grewyr brawddegau, rhestrau geirfa neu gymorth athro wrth iddynt siarad ac ysgrifennu. Mae disgyblion mwy abl yn cyfathrebu’n annibynnol, yn ysgrifennu gydag ystod briodol o eirfa ac amserau, ac yn llunio darnau ysgrifennu estynedig sydd wedi’u strwythuro’n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau adalw yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth mewn testunau. At ei gilydd, fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu hamlygu i amrywiaeth ddigon eang o ddeunydd darllen Cymraeg. Yn gyffredinol, mae’r cyfleoedd cyfyngedig i ymarfer yr iaith ar draws yr ysgol mewn cyd-destunau ystyrlon yn cyfyngu ar gynnydd a hyder disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg.

### Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Croesyceiliog yn ysgol gynhwysol, ofalgar ac anogol lle mae staff yn gefnogol i bob disgybl. Mae ganddi ymdeimlad gwirioneddol o berthyn a chymuned. Ceir perthnasoedd cryf yn yr ysgol, a rhoddir pwys mawr ar les disgyblion. Mae aelodau staff penodol wedi cael eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl, ac mae disgyblion wedi cael eu hyfforddi fel ‘Llysgenhadon Heddwch Interact’ i ddarparu cymorth ar gyfer anghenion emosiynol. Mae timau bugeiliol yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o gymorth lles teilwredig, gan gynnwys hybiau lles, ymyriadau targedig a chanolfan galw i mewn, ‘In Reach’, sy’n darparu gofal anogol.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol poblogaidd yn ymestyn profiadau disgyblion ac yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol, fel ‘Croesy Chosen’, clwb crosio a thrafod. Mae cymuned yr ysgol yn gwerthfawrogi a hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth, er enghraifft trwy ddathlu Wythnos Pride, ac yn annog disgyblion i fod yn barchus ac yn ystyriol o bobl eraill.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn aeddfed, yn groesawgar ac yn barchus tuag at oedolion, ymwelwyr a’i gilydd. Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da ac ar gyfer delio ag unrhyw achosion o ymddygiad gwael mewn gwersi neu o gwmpas yr ysgol. Bu disgyblion a staff yn cydweithio i lunio polisi ymddygiad yr ysgol, ac o ganlyniad, caiff systemau ymddygiad eu deall yn dda gan ddisgyblion, a’u cymhwyso’n gyson gan staff. Mae staff yn delio’n brydlon â’r achosion prin

iawn o fwlio ac aflonyddu honedig, a defnyddir dulliau adferol yn dda i gynorthwyo pob disgybl dan sylw. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'u bod yn rhydd rhag bwlio.

Mae'r ysgol wedi datblygu darpariaeth effeithiol ar y safle i gefnogi disgyblion sy'n profi rhwystrau rhag dysgu. Mae 'Y Bont' ('The Bridge') yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol diogel ar gyfer disgyblion sydd angen darpariaeth cwricwlwm amgen ac yn defnyddio ystod o arbenigedd gan staff a phartneriaid allanol i gefnogi ei hymagwedd at reoli ymddygiad yn gadarnhaol. Mae disgyblion a rhieni yn gwerthfawrogi'r trefniadau ystyriol i gefnogi cyfnod pontio disgyblion i Flwyddyn 7, yn ogystal â phan fyddant yn dewis eu hopsiynau ym Mlwyddyn 9, a chynllunio'u llwybr yn y dyfodol ar ôl Blwyddyn 11.

Mae'r tîm ADY yn dangos ymrwymiad cryf a brwdfrydig i hyrwyddo datblygiad a chynnydd disgyblion sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu. Maent wedi cefnogi'r ysgol i wneud cynnydd cadarn tuag at fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru 2018). Mae'r tîm wedi sefydlu llwybrau atgyfeirio clir a strwythuredig, sy'n sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi'n brydlon ac yr eir i'r afael â nhw'n effeithiol. Mae Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn amlinellu anghenion disgyblion ac yn cefnogi gofynion yn glir, a gall staff fynd at y wybodaeth yn hawdd. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion fel bod staff yn deall ac yn ymateb i anghenion esblygol disgyblion unigol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o ymyriadau addas ar gyfer y disgyblion hyn mewn llythrennedd, rhifedd a lles. Mae'r tîm ADY yn monitro cynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn yn ofalus ac yn defnyddio gwybodaeth i fireinio ac addasu eu darpariaeth. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd addas, o leiaf.

### Ciplun: Proffiliau Un Dudalen Digidol

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o systemau digidol i roi crynodeb cryno a hygyrch o anghenion dysgu disgyblion i staff. Mae arweiniad defnyddiol ar anghenion penodol yn ychwanegu at y wybodaeth hon, sy'n helpu staff i gynllunio'n briodol ar gyfer disgyblion unigol. Mae disgyblion â CDUau yn recordio fideos byr addysgiadol a buddiol yn esbonio'u Proffiliau Un Dudalen eu hunain. Yn y rhain, maent yn dweud beth maent yn ei fwynhau a sut orau y gall staff eu cynorthwyo, gan roi gwybodaeth werthfawr i athrawon i lywio'u cynllunio. Mae clywed yn uniongyrchol gan ddisgyblion yn helpu staff i'w deall ac yn cyfrannu at feithrin perthnasoedd cryf a chadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol.

Mae gweithgareddau pontio estynedig, gan gynnwys diwrnodau ychwanegol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ag ADY a'u rhieni a'u gofalwyr, yn helpu disgyblion i setlo'n dda yn yr ysgol. Mae hyn yn gryfder nodedig.

Mae'r tîm ADY yn cyflwyno hyfforddiant pwrpasol i staff ar ystod eang o anghenion a strategaethau dysgu. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar feithrin medrau a hyder staff i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY. Er bod gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion disgyblion ar gael, nid yw ychydig o athrawon bob amser yn gwneud defnydd digon llawn o hyn wrth gynllunio'u gwersi.

Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldeb mewn ffurfio mentrau a phenderfyniadau ysgol gyfan o fewn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys y Tîm Arweinyddiaeth Disgyblion etholedig, y Senedd a 'Gweinyddiaethau' â thema. Mae'r rhain yn darparu fforymau pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu ar newid ar draws meysydd fel cynhwysiant, lles a'r amgylchedd. Mae rolau ychwanegol fel y Criw Cymraeg, y pwyllgor eco a'r llysgenhadon yn galluogi disgyblion i gyfrannu'n ystyrlon at yr ysgol a'r gymuned ehangach. Gofynnir am safbwyntiau disgyblion, gweithredir arnynt, ac fe gânt eu cyfleu yn ôl yn briodol fel bod llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eu llais yn cael ei werthfawrogi.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o hyrwyddo presenoldeb da. Cefnogir hyn gan systemau olrhain fforensig, monitro data yn rheolaidd a chymorth targedig ar gyfer disgyblion â phresenoldeb gwael. Mae arweinwyr a'r tîm bugeiliol yn nodi tueddiadau yng nghyfraddau absenoldeb disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Mae aelodau staff allweddol yn gweithio'n effeithiol gyda theuluoedd i fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynychu. Mae disgyblion yn ymgymryd â rôl weithredol mewn monitro'u data presenoldeb eu hunain bob wythnos gyda'u tiwtor dosbarth. Mae dyfarnu pwyntiau presenoldeb yn helpu cymell disgyblion, yn cefnogi gwelliannau mewn presenoldeb cyffredinol ac yn lleihau lefelau absenoldeb parhaus.

Yn 2022-2023 a 2023-2024, bu gwelliant da mewn cyfraddau presenoldeb, yn cynnwys o ran  disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac roeddent yn well na'r cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion tebyg. Mae data heb ei wirio ar gyfer 2024-2025 yn dangos y bu mwy o gynnydd yn y gyfradd presenoldeb, yn cynnwys cyfradd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf lle caiff diogelu a lles eu hystyried yn gyfrifoldeb ar y cyd, wedi'u hategu gan drefniadau clir a thra dealledig i amddiffyn disgyblion. Darperir hyfforddiant diogelu pwrpasol a rheolaidd i bob un o'r staff a'r llywodraethwyr, sy'n sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion presennol, a'u bod yn hyderus o ran cyflawni eu cyfrifoldeb. Mae staff yn ymateb yn briodol ac mewn modd amserol i unrhyw bryderon y mae disgyblion yn eu rhannu â nhw, gan sicrhau bod disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a bod pobl yn gwrando arnynt.

Mae'r ysgol yn gweithio'n rhagweithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys mewn meysydd fel e-ddiogelwch a pherthnasoedd iach. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i sicrhau diogelwch a lles disgyblion. Maent yn cadw cofnodion electronig manwl o bryderon, sy'n cael eu monitro a'u dadansoddi'n ofalus i greu darlun cynhwysfawr o anghenion disgyblion. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i ymateb yn brydlon a darparu lefelau cymorth priodol. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymddiried mewn staff i gymryd eu pryderon o ddifri.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ystyriol a thosturiol, gan flaenoriaethu lles pawb o fewn cymuned yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth a gaiff ei chyfleu'n eglur, wedi'i seilio ar werthoedd craidd yr ysgol, sef 'Dysgu, Parch, Uchelgais', sy'n cael ei deall yn dda gan bob aelod o staff.

Ers ei phenodi, mae'r pennaeth wedi cael effaith gadarnhaol nodedig ar yr ysgol. Caiff ei chefnogi'n fedrus gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, y mae eu rolau wedi cael eu cynllunio'n synhwyrol ac yn deg. Gyda'i gilydd, maent wedi ysgogi gwelliannau cynaledig mewn ymddygiad, presenoldeb a safonau, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy bregus, ac wedi sicrhau diwylliant diogelu cryf. Mae arweinwyr canol wedi ymrwymo'n dda i'r ysgol a llwyddiant ei disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac maent yn cydweithio'n effeithiol.

Mae arweinwyr yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso. Yn ddiweddar, mae'r uwch dîm wedi cymryd camau tra ystyriol i ad-drefnu a symleiddio'r prosesau hyn. Mae hyn yn dechrau helpu arweinwyr i wella trylwyredd eu gwerthusiadau o addysgu a chynnydd. Yn ychwanegol, mae'n dechrau eu hannog i rannu arfer dda o ran yr agwedd hon ar eu gwaith.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn gosod blaenoriaethau gwella addas, ar y cyfan, sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella addysgu a deilliannau disgyblion. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad o ran pa mor fanwl gywir y mae arweinwyr yn cynllunio ar gyfer gwelliannau penodol. Mae hyn oherwydd nad yw eu gwerthusiadau bob amser yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith benodol eu darpariaeth ar gynnydd a dysgu disgyblion.

Mae arweinwyr yn dwyn staff i gyfrif yn addas ac yn delio'n gefnogol ac yn gadarn â thanberfformio, lle mae angen. Mae proses briodol i bob un o'r staff osod ac adolygu blaenoriaethau datblygiad personol. Trwy ganoli gwybodaeth o gyfarfodydd a gweithgareddau hunanwerthuso a'i rhannu'n eang, mae uwch arweinwyr wedi dechrau

creu diwylliant o ddisgwyliadau cyson uchel ac atebolrwydd cydweithredol ar draws yr ysgol.

Mae’r ysgol yn darparu ystod addas o ddysgu proffesiynol ar gyfer staff, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i rannu arfer dda. Mae’r gweithgareddau hyn, yn gyffredinol, yn canolbwyntio’n briodol ar flaenoriaethau ysgol gyfan a chenedlaethol. Mae staff yn ymgymryd ag ystod o brosiectau dysgu proffesiynol unigol sy’n cael eu llywio’n briodol gan ymchwil ac yn cael eu gwerthuso’n briodol yn sgil eu heffaith.

Mae gan yr ysgol ymagwedd gynhwysfawr a thra ystyriol at liniaru effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Rhoddir pwyslais clir ar wneud hyn yn gyfrifoldeb i bawb, ac mae’n rhan annatod o ddiwylliant yr ysgol gyfan i ddiwallu anghenion pob disgybl. Mae’r ysgol yn cefnogi lles a chyrhaeddiad disgyblion o aelwydydd incwm isel trwy ystod eang o strategaethau, gan gynnwys cynllunio’r cwricwlwm, cymorth ymarferol â chost bywyd ysgol, a mentora ar gyfer disgyblion wrth iddynt baratoi ar gyfer eu harholiadau.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr brwdfrydig, myfyriol ac ymroddgar i’r ysgol. Maent yn darparu lefel briodol o her ar gyfer arweinwyr. Mae ganddynt wybodaeth fanwl am lawer o agweddau ar waith yr ysgol, wedi’i llywio gan ymweliadau rheolaidd â’r ysgol i gyfarfod ag arweinwyr a disgyblion. Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n dda ac yn datblygu partneriaethau effeithiol â rhieni a’r gymuned ehangach.

Mae’r pennaeth a’r rheolwr busnes, gyda chefnogaeth fuddiol gan lywodraethwyr, yn monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd diwyd o gyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Yn 2022-2023 a 2023-2024, roedd perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4 islaw’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae data heb ei wirio’r ysgol yn dangos bod perfformiad y disgyblion hyn wedi gwella’n dda yn 2024-2025.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco, lle bo’n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2025